

ECAD4002C
DARLITH 1

Gosod sylfeini

Jeni Price: j.price@pcydd.ac.uk

NOD Y MODWL

- I ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg a datblygu eu hyder wrth ei defnyddio ar lafar ac ar bapur.
- I alluogi hyfforddeion i gyflwyno'r Gymraeg yn gywir wrth addysgu yn y sector cynradd.
- I alluogi hyfforddeion i ddeall lle'r Gymraeg yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.


DEILLIANNAU DYSGU'R MODWL

- Dangos cynnydd yn eich gallu i gyfathrebu ar lafar, darllen ac ysgrifennu yn ôl eich cyraeddiadau ieithyddol.
- Dechrau deall strategaethau dysgu ac addysgu iaith, boed yn famiaith neu'n ail iaith.
- Dechrau deall y cwricwlwm Cymraeg / Cymraeg Ail Iaith o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ynghyd â'i berthynas â'r cwricwlwm cyfan gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig.


DARLITH 1 : GOSOD SYLFEINI

- Cyflwyniad i'r modwl
- Taith fy iaith- Moodle
- Termiau gramadeg
- Dysgu am batrymau a rheolau sillafu

PWY YDW I?



PWY YDW I?



PWY YDW I?



FFAITH DDIDDOROL AMDANAF I...



PWY YDYCH CHI?

- Pwy ydych chi?
- O ble 'dych chi'n dod?
- Dywedwch un ffaith ddiddorol amdanoch chi eich hunain!



TAITH FY IAITH

- Ar ffurf **Blog** ar **Moodle**
- Disgwylir i chi greu **Blog personol** ar Moodle
- Mae **canllawiau** i'w lawrlwytho ar Moodle.
- Dylech chi gyflwyno cofnod **yn fisol** (tua 200 o eiriau) gan gynnwys:
 - Targed ieithyddol
 - Sut yr aethoch ati i wella'ch iaith
 - Canlyniad



TAITH FY IAITH





- Rhaid cyflwyno'r cofnod erbyn **diwedd y mis**.
- Ni fydd modd newid y cofnod ar ôl i'ch tiwtor ei weld.
- Fel arfer, ni roddir sylwadau na marc yn fisol. Ceir adborth ar y cyfanwaith **ar ddiwedd y flwyddyn**.
- Gellid nodi anawsterau a gwallau a godir yn eich gwaith **ar draws eich gradd**.
- Dylech gynnwys **tystiolaeth** o'ch cynnydd drwy gydol y flwyddyn- uwchlwytho wrth gyflwyno'r blog yn fisol.



TAITH FY IAITH

- Erbyn diwedd y cwrs, disgwylir i chi **grynhoi** eich sylwadau.
- Rhaid i chi **argraffu** tudalen flaen ac holl gofnodion eich blog a'u cyflwyno fel rhan o'ch **portffolio**.





TERMAU GRAMADEC

Enw / Enwau Noun/s

Gair sy'n cael ei roi ar ryweth er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.

Mae gan bob enw **flurf unigol** a **lluosog** e.e. problem / problemau; plentyn / plant

Mae i bob enw yn y Gymraeg **genedi** h.y. mae pob enw naill ai yn **wrywaidd(eg)** neu'n **fenywaidd (eh)** e.e. y ward **hen**, y gwaith **hwn**.

Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau sy'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd (**egb**) e.e. munud, llygad, cwpan.

enw priod enw person, peth, iaith neu le arbennig e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b. Ceir **prif lythren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

enw torfol enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyfria, haid

enw diriaethol enw ar ryweth 'real' h.y. rhyweth y gallwn ni gyflwrdd ag e.e. bwrdd, cadair

enw hasiaethol enw ar ryweth na allwn ni ei gyflwrdd e.e. hapusrwydd, cariad

Rhagenw / Rhagenwau Pronoun/s

Gair a ddefnyddir yn lle enw.

e.e. fi, ti, fe, nhw, ninnau, hwn

Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae **Siân** yn hoff iawn o'i gwaith. (**enw**)

Mae **hi** yn hoff iawn o'i gwaith. (**rhagenw**)

Ansoddair / Ansoddeiriau Adjective/s

Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud **sut** beth ydyw.

e.e. sefyllfa **anodd**

pryder **mawr**

prydau bwyd **prydion**

merch **hapus**

Fel arfer yn y Gymraeg mae'r ansoddair yn dod ar ôl yr enw. Serch hynny mae rhai sy'n digwydd fynychaf o flaen yr enw (syllwch y ceir ffeiliad meddal ar ôl ansoddair)

e.e. **hen** wers

priod waith

annwyl ferch

unig gyfle

hoff liw

Cysylltair / Cysyllteiriau Conjunction/s

Gair sy'n **cysylltu** geiriau, cymalau neu frawddegau.

e.e. trefniadau a chynlluniau

un **neu** ddau

Roedd John yn hwyr i'r gwaith **oherwydd** / **o achos** y ddamwain.

Aeth John yn ôl i'w sedd **ond** ni lwyddodd i gwblhau'r gwaith.

Mae hi'n brysur yma heddiw. Mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd. >

Mae hi'n brysur yma heddiw **ac** mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.

Arddodiad / Arddodiaid Preposition/s

Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. Yn aml, mae arddodiad yn disgrifio **ble mae** un peth mewn perthynas â rhyweth arall.

e.e. Mae'r gwaith **ar** y ddesg.

Mae'r disgyblion **yn** y dosbarth.

Mae'r ffeiliau **wrth** y drws.

Bannod (Y Fannod) The Article

Gair sy'n gwneud enw'n **benodol** yw bannod a cheir tair ffurf ar y fannod bendant yn y Gymraeg: **y, yr 'r** (sef **the** yn Saesneg). Ni cheir bannod amhendant yn y Gymraeg - h.y. **a** neu **an** yn Saesneg.

e.e. **y** bobl

yr amser a'r ymdrech

Mae'r disgybl yn gweithio'n gyson.

Berf / Berfau Verb/s

Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.

Mae berf yn cyflawni tair swyddogaeth - dangos **person** (fel arfer), **amser** a **gweithred**.

e.e. **gwelais**

y weithred yw **gweld**

fi yw'r person

yn y gorffennol y digwyddodd hyn

Geiriau i'w cofio:

cwmpasog (y **ffurf hir**) y mae ef yn cerdded

cryno (y **ffurf fer**) cerdda ef

Ceir chwe pherson i bob berf:

UNIGOL

1. fi

2. ti

3. ef/hi

LLUOSOG

1. ni

2. chi

3. nhw

Goddrych a Gwrthrych Berf

Subject and Object of the Verb

GODDRYCH - yr un sy'n gwneud y weithred (*Subject*)

GWRTHRYCH - yr un sy'n dioddef y weithred (*Object*)

Darllenodd y disgybl lyfr da ddoe.

y disgybl - **goddrych** (yr un sy'n gwneud y weithred)

lyfr da - **gwrthrych** (yr un sy'n dioddef y weithred)

Berfenw / Berfenwau Infinitive/s // Verb-Noun/s

Dyma ystyr neu enw'r ferf - enw'r gweithgaredd yn unig a geir e.e. ysgrifennu, darllen, gobeithio, nodi

Mae'r berfenw'n ddau air yn Saesneg h.y. **to + y ferf** e.e. to say, to think, to believe a.y.y.b. ond yn y Gymraeg, dim ond y berfenw ei hun sydd ei angen, e.e. dweud, meddwl, credu.

Y berfenw sydd i'w gael yn y geririadur

Adferf / Adferfan Adverb/s

Gair sy'n disgrifio **berf**, **ansoddair** neu **adferf arall**. Maent yn ateb y cwestiynau:

Sut? Ble? Pryd? Pam?

penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwanegu at ein gwybodaeth am y ferf "penderfynu")

yn **eihaf** pwysig (ychwanegu at ien gwybodaeth am yr ansoddair "pwysig")

unwaith **eto** (ychwanegu at ien gwybodaeth am yr adferf "unwaith")

Gellir llunio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair e.e

Gweithiodd y pennaeth **yn gyflym**. Mae **cyflym** yma yn disgrifio **gweithiodd**.

y cwestiwn: **Sut?**

ac yn ateb

Cyhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr**.

Mae **hwyr** yma yn disgrifio **cyhaeddodd**.

y cwestiwn: **Pryd?**

ac yn ateb

Defnyddio geiriadur!



GEIRIADUR ...

Mae'r geiriadur yn gallu bod o gymorth mawr. Gallwn weld ...

- sut mae **sillafu** gair yn gywir;
- pa **ran ymadrodd** yw e – enw, ansoddair neu ferf?
- a yw gair yn **fenywaidd** neu'n **wrywaidd**
- beth yw **lluosog** gair;
- beth yw ei **ystyr** yn union ;
- beth yw'r cyfieithiad(au) **Saesneg /Cymraeg** posibl.

ECAD4002C

Darlith 1 Ymarfer Defnyddio'r Geiriadur

Mae'r geiriadur yn gallu bod o gymorth mawr o ran:

- gweld sut mae ei **sillafu**'n gywir;
- pa **ran ymadrodd** yw e – enw, ansoddair neu beth?
- penderfynu a yw gair yn **fenywaidd** neu'n **wrywaidd**
- gwybod beth yw **lluosog** gair;
- gwybod beth yw ei **ystyr** yn union ;
- gwybod beth yw'r cyfieithiad(au) **Saesneg /Cymraeg** posibl.

Dyma enghreifftiau o eiriaduron y gellwch eu defnyddio:

Geiriadur Cymraeg Cyfoes

Geiriadur yr Academi – Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (Saesneg – Cymraeg yn unig) – ar-lein – www.geiriaduracademi.org

CysGair – Geiriadur Cymraeg/Saesneg – Saesneg / Cymraeg ar CD-ROM, Prifysgol Cymru, Bangor. Ar-lein – mae modd lawrlwytho 'ap geiriaduron' i'ch dyfais symudol. Mae'r geiriadur hwn yn cynnwys cronfa eiriau 'Y Termiadur Addysg'.

GWAITH CARTREF / DYSGU CYFEIRIOL

- Adolygu'r Rhannau Ymadrodd
- Cwblhau'r Ymarferion Defnyddio Geiriadur
- Ymarfer adnabod y rhannau ymadrodd – Erthygl 'Atalnodi yn arddull Gangnam'



ADNODDAU DEFNYDDIOL

